

Adroddiad ymchwil: Crynodeb gweithredol

**Rhwystrau rhag
cynyddu'r defnydd
o dechnoleg dysgu
yn y sector
gwirfoddol**

Bryan Collis

Medi 2005

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Prif Swyddfa
Tŷ Baltig
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FH

Desg Gymorth CGGC 0870 607 1666
ffôn 029 2043 1700
ffacs 029 2043 1701
e-bost help@wcva.org.uk



1. Rhagarweiniad

- Diffinnir e-ddysgu fel 'defnyddio technoleg electronig i gynorthwyo, cyfoethogi neu gyflwyno dysgu'
- Nod y prosiect hwn yw pennu
 - Lefel gwybodaeth a chyfranogaeth y sector gwirfoddol o ran e-ddysgu
 - Y buddiannau gwirioneddol a phosibl i'r sector gwirfoddol o ddefnyddio e-ddysgu
 - Elfennau sy'n rhwystro e-ddysgu effeithiol
 - Cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau (SWOT) o ran defnyddio e-ddysgu yn y sector gwirfoddol a chanddi
 - Nifer o argymhellion ar gyfer gweithredu pellach gan y sector gwirfoddol a'i bartneriaid.
- Mae'r sector gwirfoddol yng Nghymru yn cynnwys 30,000 o fudiadau gwirfoddol, gyda chyfanswm incwm o £1.022 biliwn. Mae o leiaf 30,000 o bobl yn gweithio yn y sector gwirfoddol ac mae'r sector yn cael budd o wasanaeth 1.2 miliwn o wirfoddolwyr.
- Mae'r sialensiau penodol sy'n wynebu mudiadau gwirfoddol yn cynnwys cyllido, recriwtio a chadw staff a gwirfoddolwyr a gweithio gyda mudiadau eraill.
- Roedd y prosiect yn cynnwys gosod ysgogydd e-ddysgu ym mhob Cyngor Gwirfoddol Sirol, lle buont yn cynnal ymchwil weithredu i ymateb i briff y prosiect a blaenoriaethau lleol.

2. Lefel gwybodaeth a chyfranogaeth mewn e-ddysgu

Mae lefel gwybodaeth a chyfranogaeth y sector gwirfoddol o ran e-ddysgu yn amrywio ledled Cymru ond ar y cyfan, gellir dweud hyn:

- Mae rhwng 50 a 70 y cant o fudiadau'n ymwybodol o e-ddysgu.
- Mae pobl braidd yn ddryslyd ynglŷn â'r hyn y mae e-ddysgu yn ei olygu
- Mae llawer llai o bobl wedi cymryd rhan mewn e-ddysgu nag sydd wedi clywed amdano, gyda rhwng 16 a 58 y cant o'r ymatebwyr wedi cael profiad ohono mewn rhyw ffurf neu'i gilydd.
- Mae mudiadau cenedlaethol yng Nghymru yn fwy ymwybodol ac yn cyfrannu'n helaethach mewn e-ddysgu na mudiadau rhanbarthol neu genedlaethol.
- Mae lefel chyfranogaeth mewn e-ddysgu o fewn mudiadau cenedlaethol yng Nghymru yn amrywio, gyda rhai lleoliadau'n methu â chyfranogi.
- Canfu'r prosiect bartneriaethau strategol a phartneriaethau darparu, gyda rhai enghreifftiau o arferion da yn y naill a'r llall.
- Canfuwyd dros 500 o leoliadau a allai fod ar gael ar gyfer e-ddysgu a ddarperid gan fudiadau gwirfoddol, neu ar gyfer mudiadau gwirfoddol.
- Canfu'r prosiect dros 2000 o gyfrifiaduron a 200 o liniaduron a fyddai ar gael i'w defnyddio gan fudiadau gwirfoddol.
- Nid oedd y lleoliadau a'r adnoddau a ganfuwyd wedi eu taenu'n gyfartal o amgylch Cymru.
- Canfuwyd 134 o leoliadau gyda mynediad a chyfleusterau ar gyfer pobl anabl a chyfrifiadur. Roedd llai o leoliadau gyda meddalwedd arbennig neu addasiadau ar gyfer pobl ag anableddau.

- Nid oes unrhyw ddarlun clir ynglŷn â'r cydbwysedd rhwng y ddarpariaeth e-ddysgu achrededig ac an-achrededig sydd ar gael i'r sector gwirfoddol.

3. E-ddysgu fel cyfrwng dysgu yn y sector gwirfoddol

Clustnodwyd y buddiannau gwirioneddol a phosibl canlynol o ddefnyddio e-ddysgu gyda phobl yn y sector gwirfoddol:

- Galluogi i ddysgwyr weithio ar eu tempo eu hunain, hepgor darnau y maent eisoes yn eu deall, neu ail-wneud darnau nad ydynt yn eu deall.
- Gall dysgwyr wneud eu camgymeriadau heb i neb sylwi, a heb fod â chywilydd o'u gwneud.
- Galluogi i ddysgwyr drefnu eu dysgu i weddu i'w hamserlen, yn hytrach na chael eu rheoli gan amserlenni darparwyr neu'r hyn sydd ar gael.
- Rhoi cyfle i bobl ddewis ble maen nhw'n dysgu.
- Gall pobl ddysgu yn eu cartrefi eu hunain, gan arbed amser a chostau teithio, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.
- Darparu cefnogaeth i ddysgwyr, ee dadansoddi anghenion hyfforddi, dadansoddi arddulliau dysgu, sgiliau chwilio am waith, fel rhan o'r profiad dysgu.
- Cyflwyno cymhorthion gweledol i'r dysgu, fel bo'r dysgwr yn gallu gweld digwyddiadau'n digwydd.
- Gwella ansawdd y dysgu a ddarperir, yn enwedig mewn amgylchedd ystafell ddosbarth.
- Cynnig dulliau eraill o gyfathrebu, cyflymder cyfathrebu, hyblygrwydd cyfathrebu ac weithiau, cyfathrebu changach.

Mae'r buddiannau hyn hefyd ar gael i bobl sy'n derbyn gwasanaethau gan fudiadau gwirfoddol. Y prif grwpiau a glustnodwyd yn rhai a fyddai'n elwa ar e-ddysgu trwy'r sector gwirfoddol yw:

- Pobl ifanc sydd wedi'u dadrithio
- Pobl â phroblemau iechyd meddwl
- Plant, pobl ifanc ac oedolion anabl
- Pobl hŷn
- Grwpiau cymunedol mewn ardaloedd difreintiedig.

Bu'r ysgogwyr yn hyrwyddo e-ddysgu ledled y sector gwirfoddol yng Nghymru.

4. Elfennau sy'n rhwystro defnydd effeithiol o e-ddysgu

Mae elfennau sy'n rhwystro defnydd effeithiol o e-ddysgu'n gweithredu mewn tair ffordd: rhwystrau a wynebir gan staff a gwirfoddolwyr, rhwystrau a wynebir gan fudiadau a rhwystrau a wynebir pobl sy'n derbyn gwasanaethau.

- Mae rhwystrau a wynebir gan staff a gwirfoddolwyr yn cynnwys ofn technoleg, diffyg gwybodaeth am yr adnoddau sydd ar gael a'r dybiaeth nad yw e-ddysgu'n golygu unrhyw ryngweithio cymdeithasol.
- Mae rhwystrau a wynebir gan fudiadau'n cynnwys cyllid ar gyfer offer a/neu gyrsiau, amser staff, ansawdd ac argaeledd cyrsiau (yn enwedig yn y Gymraeg) a diffyg seilwaith.

- Mae elfennau sy'n rhwystro pobl rhag derbyn gwasanaethau yn cynnwys yr un rhai â staff, gyda sylw'n cael ei dynnu at ddiffyg sgiliau cyfrifiadurol.

Ar ben hynny, daeth gallu mudiadau'r sector cyhoeddus i weithio gyda mudiadau gwirfoddol i'r amlwg fel rhwystr, yn enwedig ym maes cydlynw cynlluniau a diffyg effaith y strategaeth e-ddysgu ar sector gwirfoddol.

Aeth ysgogwyr i'r afael â rhai o'r problemau hyn trwy eiriol ar ran y sector gwirfoddol gyda rhanddeiliaid eraill. Cofnodwyd rhai llwyddiannau, yn enwedig gyda phartneriaethau strategol yn ail-gynnull is-grwpiau ac yn ymgymryd â chynllunio ar y cyd.

5. Argymhellion

O'r dadansoddiad SWOT a wnaed, cyflwynir yr argymhellion canlynol. Aeth pob ysgogydd ati hefyd i ddatblygu argymhellion ar lefel leol.

Argymhellion i CGGC

1. Cynnwys thema e-ddysgu yng ngwaith y canolbwynt sgiliau sector i ddod â datblygu'r ddarpariaeth e-ddysgu i brif ffrwd anghenion datblygu cyffredinol y sector gwirfoddol.
2. Ceisio nawdd i ddarparu porth gwybodaeth ar y we i e-ddysgu, yn seiliedig ar wefan ELVS, ar gyfer mudiadau gwirfoddol
3. Darparu cronfa ddata o leoliadau sy'n addas ar gyfer e-ddysgu
4. Adeiladu ar y gwaith hyrwyddo a wnaed gan y prosiect, lle bo modd
5. Ceisio cytuno ar gynllun gweithredu cenedlaethol, gyda phartneriaid sector gwirfoddol, i ddatblygu e-ddysgu.
6. Gweithio gyda grwpiau eiriolaeth ar lefel genedlaethol i fynd i'r afael ag anghenion pobl anabl o ran cael llwybr at e-ddysgu

Argymhellion i'r sector gwirfoddol lleol

7. Parhau i hyrwyddo e-ddysgu fel rhan o bortffolio o ddarpariaeth dysgu anffurfiol a ffurfiol sy'n canolbwyntio ar y dysgwyr
8. Chwilio am bartneriaethau i ddarparu'n lleol, gan roi gwerth ychwanegol i ddysgwyr a chymunedau sy'n dysgu
9. Chwilio am gyfleoedd i fod yn rhan o'r penderfyniadau lleol a wneir mewn perthynas â'r ddarpariaeth e-ddysgu
10. Datblygu canolfannau lleol i fod yn hwylus ac yn gyfleus ar gyfer e-ddysgu
11. Bod yn rhan o'r cynllun [Communities@one](#) yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn lleol.

Argymhellion i ELWa

12. Darparu ffrydiau o gyllid penodol ar gyfer mudiadau gwirfoddol er mwyn iddynt ddatblygu gweithgareddau dysgu cynaliadwy. Rhaid sicrhau cyllid parhaus i gael unrhyw obaith o effaith parhaol.
13. Cefnogi darparwyr dysgu yn y sector gwirfoddol trwy ganolfan gefnogaeth ranbarthol y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth, i'w ychwanegu at y gefnogaeth sydd eisoes ar gael i golegau AB. Dylid darparu hyn mewn ffordd briodol trwy gyflogi pobl sydd â gwybodaeth a phrofiad o'r sector gwirfoddol.

e-ddysgu yn y sector gwirfoddol

14. Mynd i'r afael ag anghenion e-ddysgwyr Cymraeg eu hiaith gyda chyllid i ddatblygu adnoddau
15. Cynnwys e-ddysgu yng nghynlluniau'r dyfodol ar gyfer Cyfrifon Cymunedau sy'n Dysgu
16. Cyllido dulliau arloesol o ddenu pobl at y maes trwy ddefnyddio e-ddysgu a chefnogi datblygu cynnwys sydd dan arweiniad y gymuned

Argymhellion i CCAHau

17. Cryfhau a datblygu cysylltiadau gyda phartneriaid sector gwirfoddol a chymunedau i ddarparu dysgu sy'n seiliedig ar y dysgwr ac sy'n ymateb i angen a glustnodwyd
18. Cynnwys e-ddysgu mewn cynlluniau strategol sy'n effeithio ar ddysgu sy'n seiliedig yn y gymuned

Argymhellion i ddarparwyr e-ddysgu lleol

19. Agor deialog gyda rhanddeiliaid y sector gwirfoddol ynglŷn â llwybr grwpiau tuag at adnoddau e-ddysgu yn eich mudiad
20. Cynnig hyfforddiant ar y cyd i fudiadau partner

6. Casgliadau Cyffredinol

Tameidiog fu'r gwaith o weithredu strategaeth e-ddysgu Llywodraeth Cynulliad Cymru, gyda chynnydd sylweddol mewn nifer o ardaloedd, ond ychydig o effaith leol yn y sector gwirfoddol. Aeth y prosiect e-ddysgu i'r afael â hyn gyda chymysgedd o ymchwil a gweithredu lleol, a gwelwyd sawl achos o ymarfer da yn dod i'r amlwg, ac fe godwyd proffil e-ddysgu yn y sector gwirfoddol yn gyffredinol.

Er mwyn symud ymlaen, mae angen mynd i'r afael â phedair thema:

- Rhaid i'r cyllid a'r ddarpariaeth gefnogi fod yn rhai tymor hir, er mwyn i grwpiau allu magu hyder dros y pump i ddeng mlynedd nesaf. Methodd ymdrechion blaenorol i ddatblygu seilweithiau TGCh oherwydd bod yr arian wedi dod i ben a bod angen diweddarau cyfrifiaduron er mwyn cynnal yr impetws.
- Mae angen treialu posibilïadau lleoliadau dysgu dan reolaeth yn y sector gwirfoddol, er mwyn dangos yr ymrwymiad cymdeithasol y mae e-ddysgu'n gallu esgor arno. Mae nifer o fudiadau gwirfoddol yn datblygu'r rhain, ac mae'n bosib y gellid creu partneriaethau gyda cholegau AB. Mae angen eu defnyddio i ddarparu dysgu o bell a chysiau blasu, os yw pobl i gael eu hannog i fanteisio i'r eithaf ar botensial e-ddysgu.
- Delwedd negyddol e-ddysgu fel dysgu unig, sydd ag angen hunan-ysgogiad sylweddol, heb unrhyw ryngweithio cymdeithasol o gwbl. Rhaid newid y ddelwedd hon, neu ni fydd modd gwireddu potensial e-ddysgu.
- Sylweddoli mai fel rhan o strategaeth ddysgu gyffredinol y dylid edrych ar e-ddysgu, ac y bydd cefnogaeth, a honno'n aml yn gefnogaeth bersonol i roi'r ysgogiad i ddysgu, bob amser yn hanfodol er mwyn i ddysgwyr anhraddodiadol ddysgu'n llwyddiannus.